Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymunedau gwledig
## Papur briffio

Gorffennaf 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymunedau gwledig
## Papur briffio

Gorffennaf 2024

Mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn cynnal sesiwn gyda'r Prif Weinidog, Vaughan Gething AS, ar 12 Gorffennaf 2024, yn canolbwyntio ar gymunedau gwledig.

Mae'r briff hwn yn nodi rhai o'r pynciau allweddol y gallai'r Pwyllgor fod yn eu hystyried.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad....................................................................1**

Goblygiadau Etholiad Cyffredinol y DU ....................................1

Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu...........................1

**2. Amaethyddiaeth a'r amgylchedd ....................................2**

Cynllun Ffermio Cynaliadwy .........................................................2

Ymateb rhanddeiliaid i'r cynigion......................................3

Pryniant corfforaethol tir fferm ar gyfer creu coetir.................4

**3. Trafnidiaeth ......................................................................7**

Targedau newid dulliau teithio ...................................................7

Adolygiad ffyrdd......................................................................7

Tlodi trafnidiaeth..........................................................................8

Masnachfreinio bysiau..................................................................8

Gwasanaethau rheilffyrdd ............................................................9

Prosiectau Metro......................................................................10

**4. Yr economi, twristiaeth a chysylltedd digidol ................... 11**

Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ..................................... 11

Ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ........................................ 11

Cysylltedd Digidol .......................................................................12

**5. Tai ........ 13**

Tai cymdeithasol gwledig ........ 13

Digartrefedd gwledig ........ 13

**6. Y Gymraeg ........ 15**

Y Gymraeg, amaethyddiaeth a Chymru wledig ........ 15

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Gymraeg ........ 15

Comisiwn Cymunedau Cymraeg ........ 16

Arfor ........ 17

**7. Gofal Iechyd ........ 19**

Y gweithlu a recriwtio ........ 19

Ambiwlans Awyr Cymru ........ 20

**8. Addysg ........ 21**

Ysgolion gwledig ........ 21

Teithio gan ddysgwyr ........ 21

**9. Bwyd a diod ........ 22**

# 1. Cyflwyniad

**Ar 12 Gorffennaf 2024**, mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn craffu ar waith y Prif Weinidog, Vaughan Gething AS ar faterion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig. **Cytunodd y Pwyllgor** ar destun y cyfarfod hwn yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill.

Mae amrywiaeth o feysydd polisi sy'n effeithio ar 'gymunedau gwledig', a diben y briff hwn yw ceisio mynd i'r afael â rhai o'r agweddau y gallai'r Pwyllgor eu trafod gyda'r Prif Weinidog.

## Goblygiadau Etholiad Cyffredinol y DU

Roedd maniffesto'r Blaid Lafur ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol yn dweud y byddai'n **'ailosod' perthynas llywodraeth y DU** â Llywodraeth Cymru, ac felly hefyd â llywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon. Dywedodd y Blaid Lafur hefyd y byddai ei buddsoddiadau arfaethedig mewn gwasanaethau cyhoeddus yn golygu **£195m yn rhagor o arian i Gymru**. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **yr adran ar ddatganoli yng Nghymru a Swyddfa Cymru yn y maniffesto** ei hun.

Yn dilyn canlyniad yr Etholiad Cyffredinol, dywedodd y **Prif Weinidog ar 5 Gorffennaf** fod hwn yn "gyfle mawr i ailosod ein perthynas a dechrau cyfnod newydd o bartneriaeth".

## Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adroddiad blynyddol ei Rhaglen Lywodraethu** ar 9 Gorffennaf. Mae hwn yn nodi ei safbwynt cynnydd o ran pob un o'r 10 'amcan llesiant', sy'n strwythur i'r Rhaglen Lywodraethu a'r 115 o ymrywmiadau sy'n rhan o'r amcanion.

Mae dadl ar yr adroddiad blynyddol wedi'i threfnu yn y **Senedd ar 16 Gorffennaf**.

# 2. Amaethyddiaeth a'r amgylchedd

## Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** (CFfC neu 'y cynllun') yw polisi amaethyddol newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru - i ddisodli system gymorth **Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE** i ffermwyr.

Mae system y PAC wedi'i chynnal i raddau helaeth yng Nghymru ers ymadael â'r UE tra bod y cynllun newydd yn cael ei ddatblygu. Yn ystod y cyfnod hwn, bu **ymgynghoriadau lluosog** ac **ymarfer cyd-ddylunio** ar y cynllun.

Mae **cynigion y CFfC** yn wyriad sylweddol oddi wrth **Gynllun y Taliad Sylfaenol (taliadau uniongyrchol)**, gyda mwy o bwyslais ar wobrwyo nwyddau cyhoeddus, megis camau amgylcheddol gofynnol. Bwriad y CFfC yw gwobrwyo ffermwyr am gymryd camau gweithredu yn seiliedig ar **amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy** (a restrir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023) i wneud y canlynol:

1. cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy;
2. lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd;
3. cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu; a
4. chadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru, er enghraifft, fel y'i nodwyd ym mis Gorffennaf 2018**, yw y bydd cefnogi gwell rheolaeth amgylcheddol yn gwella cynhyrchiant bwyd, gan eu bod yn mynd law yn llaw. Yn ôl y Gweinidog Materion Gwledig ar y pryd, Lesley Griffiths AS, gan fod gwerth i fwyd ar y farchnad, ni ddylai gael ei ddosbarthu fel nwydd cyhoeddus, ac felly ni ddylai gael ei ariannu'n uniongyrchol gan y wladwriaeth. Yn hytrach, nod dyluniad y cynllun oedd cefnogi ffermwyr a chynhyrchiant bwyd drwy'r amrywiol gamau ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy.

Disgrifiwyd yr **ymgynghoriad diweddaraf**, a gaeodd ym mis Mawrth 2024, fel y "cam olaf" cyn cyflwyno'r CFfC yn 2025. Fodd bynnag, yn dilyn ymateb cryf gan ffermwyr (a amlinellir isod), ym mis Mai **cyhoeddodd** Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS, y byddai oedi cyn cyflwyno'r cynllun - o 2025 **i 2026**.

Bydd Cam Paratoi ar gyfer y CFfC nawr yn 2025. Mae **Bord Gron Weinidogol** newydd ar gyfer y CFfC sy'n cynnwys rhanddeiliaid wedi'i sefydlu ar gyfer ymgynghoriad pellach.

Nid yw cyllideb y cynllun yn hysbys eto. **Nododd yr ymgynghoriad** y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd o leiaf yr un lefel o gyllid gan Lywodraeth y DU ag yn 2024-25. Mae'n disgwyl i Lywodraeth y DU ddarparu cynnydd ar sail chwyddiant mewn cyllid, gan dynnu sylw at y pwysau chwyddiant sydd wedi effeithio ar y diwydiant ffermio.

Bu peth **anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth flaenorol y DU** ynghylch lefel y cyllid newydd a ddyrennir i Gymru ar gyfer amaethyddiaeth ers ymadael â'r UE.

Cyflwynodd y portffolio Materion Gwledig **ostyngiadau** yn y gyllideb bresennol, yn dilyn ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru gyfan.

(Mae gwybodaeth am oblygiadau posibl y CFfC ar y Gymraeg ym mhennod 6 o'r briff hwn.)

## Ymateb rhanddeiliaid i'r cynigion

Mae ffermwyr wedi **protestio yn erbyn** y cynigion

Mae Ymchwil y Senedd wedi llunio **erthygl** a **Briff Ymchwil** hirach ar gynigion y CFfC, ac ymateb rhanddeiliaid.

Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (CCEI) a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA) y Senedd wedi **gwneud gwaith ar y CFfC**. Mae'r Pwyllgor CCEI wedi cyhoeddi **crynodeb o'r dystiolaeth** a ddaeth i law.

Mae rhai o'r pwyntiau allweddol gan randdeiliaid yn cynnwys:

**Ymgysylltu** - Teimlai cynrychiolwyr ffermwyr nad oedd y gwaith cyd-ddylunio yn trosi i gynigion a fyddai'n gweithio i ffermwyr, ac na wrandawyd arnynt.

**Methodoleg talu** – Roedd consensws na fyddai'r fethodoleg talu 'costau yr aed iddynt ac incwm a ildiwyd' yn darparu incwm ystyrlon ar ei phen ei hun. Rhybuddiodd undebau'r ffermwyr y byddai hyn yn peryglu hyfywedd busnesau fferm. Ystyriwyd bod y taliad gwerth cymdeithasol arfaethedig yn gymhleth ac nad oedd yn barod i'w gyflwyno.

**Cyllideb** – Roedd pryder na fyddai'r gyllideb ar gyfer amaethyddiaeth yn ddigon i gyd-fynd ag uchelgais y cynllun.

**Gorchudd coed** – Roedd ffermwyr yn pryderu y byddai'r gofyniad yn y cynllun i blannu coed (y rheol gorchudd coed 10%) yn tynnu tir i ffwrdd o gynhyrchiant bwyd a bod y dull yn rhy anhyblyg. Tynnodd grwpiau amgylcheddol sylw at bwysigrwydd gorchudd coed i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac y gellir integreiddio coed i systemau ffermio i wella cynhyrchiant amaethyddol.

**Haenau gweithredu** – Roedd ffermwyr yn pryderu bod nifer y camau gweithredu sydd eu hangen i dderbyn y taliad cyffredinol yn gwneud y cynllun yn rhy feichus. Roedd grwpiau amgylcheddol yn pryderu y byddai'r camau gweithredu mwy datblygedig, a fyddai'n cyflwyno'r budd amgylcheddol mwyaf, yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach.

**Tenantiaid a ffermwyr tir comin** – Teimlwyd na fyddai'r cynigion yn gweithio i ffermwyr tenant na ffermwyr tir comin, gan eu hatal rhag cymryd rhan yn y cynllun.

**Newydd-ddyfodiaid** – Roedd pryder na fyddai'r cynllun yn cefnogi newydd-ddyfodiaid i amaethyddiaeth.

## Pryniant corfforaethol tir fferm ar gyfer creu coetir

Tynnodd **adroddiadau yn y cyfryngau yn 2021** sylw at bryder cymunedau gwledig am gwmnïau mawr yn trechu teuluoedd lleol i brynu ffermydd i blannu coed ar gyfer gwrthbwyso carbon. **Dywedodd** y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James AS, ym mis Hydref 2021 fod potensial am broblem go iawn.

**Sefydlwyd gweithgor arbenigol** i ymchwilio i fodelau ariannu amgen a materion rheolaeth a pherchnogaeth leol. **Adroddodd y Gweithgor Cyllid Coetiroedd i Lywodraeth Cymru** yn gynnar yn 2022 a chyhoeddwyd ei **adroddiad a'i argymhellion** ar 14 Gorffennaf 2022, y diwrnod cyn sesiwn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, gyda'r Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford AS.

Yn **y cyfarfod hwnnw**, tynnodd y Prif Weinidog ar y pryd a'i swyddog sylw at newidiadau i'r grant creu coetir i'w gwneud yn haws i ffermwyr gael mynediad ato. Dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd hefyd:

> ... we want to make sure that the commercial investment that comes into Wales is organised in a way that is to the benefit of Wales rather than primarily to the benefit of the investor.

Nododd y gweithgor bryderon a godwyd "am effaith cwmnïau mawr wedi'u lleoli y tu allan i Gymru yn prynu tir er mwyn creu coetiroedd", a oedd yn cynnwys:

- colli tir amaethyddol a'r effaith ar gynhyrchu bwyd;
- colli elw economaidd i gymunedau o newidiadau o ran perchenogaeth tir;
- pryderon am blannu conwydd anfrodorol;
- pryder am y broses gwrthbwyso carbon a 'cholli' carbon o Gymru;
- diffyg gallu cymunedau lleol i ddylanwadu ar brosiectau; a
- effaith colli cymunedau ffermio ar ddiwylliant lleol a'r Gymraeg.

Er i'r gweithgor bwysleisio ei bod yn "bwysig peidio â diystyru pryderon am effaith creu coetiroedd ar gymunedau lleol", canfu ei ddadansoddiad fod enghreifftiau o'r math hwn o brosiect yn "anecdotaidd" a phrin oedd y dystiolaeth i awgrymu ei fod yn eang.

Ymhellach, canfu'r gweithgor mai ychydig iawn o gynlluniau creu coetir a oedd wedi mynd rhagddynt heb gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Gynllun Creu Coetir Glastir (fel yr oedd bryd hynny). Mae'n ofynnol i brosiectau a ariennir gan Gynllun Creu Coetir Glastir fod â chynlluniau sy'n cyd-fynd â Safon Coedwigaeth y DU, sy'n cynnwys gofyniad i ymgynghori â chymunedau lleol.

Daeth y gweithgor i'r casgliad bod gwella cyfleoedd i ffermwyr blannu coed, yn hytrach na chyfyngu ar bwy a all blannu coed, yn ffordd well o fynd i'r afael â materion perchnogaeth tir.

Yn ogystal â pherchnogaeth tir, roedd **argymhellion** y gweithgor yn cynnwys y canlynol:

> - Dylid defnyddio cyfran o'r gyllideb creu coetiroedd dros y 3 mlynedd nesaf i gynnal cynlluniau peilot o ddulliau o ddod o hyd i gyllid preifat. Dylai'r gweithgor ystyried ffurf y cynlluniau peilot hyn erbyn diwedd mis Ebrill 2022, gan ystyried opsiynau gan gynnwys gwarant a threfniadau partneriaeth i gyflwyno opsiynau cyllid cyfunol.
>
> - Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Cwmni Budd y Cyhoedd sy'n canolbwyntio ar greu coetiroedd drwy brosiectau cyllido a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, wedi'u cyllido drwy ddyroddi bondiau gwyrdd. Gallai'r cwmni hwn hefyd fod yn gyfrifol am greu'r Goedwig Genedlaethol yng Nghymru. Dylid cwblhau'r astudiaeth o fewn 12 mis.

Mae cyfraddau plannu coed wedi bod yn is na thargedau Llywodraeth Cymru am nifer o flynyddoedd: dim ond **428 hectar o goed newydd a blannwyd**

**ar gyfartaledd** bob blwyddyn yn y degawd hyd at fis Mawrth 2022. **Targed Llywodraeth Cymru** yw plannu 43,000 hectar o goed newydd erbyn 2030 (bron i 5,000 hectar y flwyddyn), gan godi i 180,000 hectar erbyn 2050 (dros 6,000 hectar y flwyddyn) i helpu i gyrraedd sero net, yn gyson â **chyngor gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU**.

Mae'r **ffigurau diweddaraf** (2022-23) yn dangos i 1,190 hectar o goed newydd gael eu plannu, sy'n fwy na dwbl cyfartaledd blynyddol y degawd blaenorol ond sy'n dal yn sylweddol is na'r targed. Dywed **papur diweddar** gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig fod disgwyl i'r ffigurau ar gyfer 2023-24 ddangos i tua 600 hectar o goed newydd gael eu plannu. Cydnabu bod angen "cynnydd cyflym".

# 3. Trafnidiaeth

Mewn **erthygl farn ym mis Ebrill 2024**, myfyriodd yr Athro Stuart Cole, sy'n Athro Emeritws ar Economeg a Pholisi Trafnidiaeth ym Mhrifysgol De Cymru, ar **flaenoriaethau trafnidiaeth** y Prif Weinidog newydd ac Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth. Awgryma'r Athro Cole:

> It has been clear for over forty years that rural Wales has lost out on Welsh Government transport investment and day-to-day expenditure when compared with urban areas.

Mae'n gofyn a oes angen dull gwahanol o werthuso cynlluniau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig, gan ddweud bod rhaid gweld trafnidiaeth gyhoeddus fel gwasanaeth cymdeithasol angenrheidiol.

## Targedau newid dulliau teithio

Mae **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** (WTS) wedi gosod targed, sef bod 45% o deithiau yn cael eu gwneud drwy gerdded/olwyno, ar feic, neu ar drafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040 (o linell sylfaen o 32% yn 2021).

Mewn **datganiad ym mis Mawrth 2024**, cydnabu Llywodraeth Cymru y bydd cyflawni targedau o'r fath yn gofyn am ddull gwahanol mewn ardaloedd gwledig. Cyhoeddodd hefyd ganllawiau ar **Trafnidiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig** i lywio **Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol** sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Mae'r canllawiau'n cydnabod y bydd y rhai mewn ardaloedd gwledig iawn yn parhau i wneud defnydd trwm o'u cerbydau. Mae'n tynnu sylw at yr angen i weithio gyda'r sector preifat i ddarparu seilwaith gwefru Cerbydau Allyriadau Isel Iawn mewn ardaloedd gwledig.

### Adolygiad ffyrdd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adroddiad terfynol y panel adolygu ffyrdd**, a'i **hymateb ei hun**, ym mis Chwefror 2023. Arweiniodd at ganslo nifer o brosiectau adeiladu ffyrdd arfaethedig. **Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd erthygl** ar y pryd sy'n rhoi rhagor o fanylion.

Fel Aelod mainc gefn, roedd Ken Skates AS, sydd erbyn hyn yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, **yn feirniadol** o'r adolygiad. Ym mis Ebrill 2024, fel Ysgrifennydd y Cabinet, **dywedodd wrth North Wales Live** y byddai'n ystyried ailgydio yn rhai o'r prosiectau ffyrdd a ganslwyd. **Dywedodd yn**

**ddiweddar,** er bod y profion adeiladu ffyrdd yn hidlydd defnyddiol, fod angen sicrhau bod y fframwaith yn addas i'r diben.

## Tlodi trafnidiaeth

Dywedodd **adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn 2016** fod trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn anfynych, yn annigonol ac yn ddrutach nag mewn mannau eraill. Pwysleisiodd **adroddiad gan Sustrans Cymru** yn 2022 fod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ymhlith y rhai sy'n cael eu heffeithio waethaf gan dlodi trafnidiaeth, sef pan mae angen i aelwyd wario mwy na 10% o'i hincwm ar gostau rhedeg car.

Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (CCEI) y Senedd wedi **argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynigion i fynd i'r afael â thlodi trafnidiaeth**, gan gynnwys prisiau teithio â chymhorthdal. Mewn ymateb, **dywedodd** Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru bod yn:

> …working really hard to try and get a flat £1 bus fare, which I think would have been a significant intervention … We haven't been able to do that, not because we don't want to do that

**Ym mis Mai, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth** y bydd y Bil bysiau arfaethedig yn cyflwyno "cyfleoedd enfawr" ar gyfer trafnidiaeth integredig a "phrisiau tocynnau tecach". Pan ofynnwyd iddo am gyflwyno tocyn bws am ddim i bobl ifanc, **fel sydd ar gael yn yr Alban** (ac a **archwiliwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Deisebau**), dywedodd fod ganddo "gryn ddiddordeb yn y math hwn o fenter a'r potensial i fynd hyd yn oed ymhellach".

## Masnachfreinio bysiau

Mae **Papur Gwyn diwygio'r bysiau Llywodraeth Cymru** yn 2022 yn cynnig deddfwriaeth a fyddai'n gofyn am fasnachfreinio bysiau ledled Cymru, ac yn caniatáu sefydlu cwmnïau bysiau trefol newydd. Bydd y cyfrifoldeb dros gynllunio'r rhan fwyaf o wasanaethau bysiau yn cael ei drosglwyddo o awdurdodau lleol i ofal Trafnidiaeth Cymru a Gweinidogion Cymru.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth wedi **dweud wrth y Senedd** ei fod yn bwriadu cyflwyno'r Bil erbyn gwanwyn 2025. Cyhoeddodd Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru "**Ein map ffordd i ddiwygio'r bysiau**" ym mis Mawrth, gan amlinellu sut y byddai masnachfreinio yn cael ei roi ar waith.

Yn 2022, **clywodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith dystiolaeth** gan y **Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr (CPT)** fod masnachfreinio yn gallu bod yn heriol i weithredwyr llai. Dywedodd y Cydffederasiwn hefyd:

> The evidence in New Zealand, where they moved from a deregulated to a franchise market, showed quite a lot of contraction in the SME sector, and the municipal company struggled as well.

Mae **tystiolaeth** gan **Transport for Greater Manchester (TfGM) a'r Urban Transport Group** yn tynnu sylw at y ffaith bod hyn hefyd wedi digwydd yn Lloegr lle mae masnachfreinio wedi'i gyflwyno.

Wrth drafod yr heriau mewn ardaloedd gwledig, **dywedodd** y cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, wrth y Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog yn flaenorol "ond mae beth maen nhw'n galw'n Saesneg yn demand-responstive travel, flexi systems, lle rydych chi'n creu'r amserlen bob dydd".

Mae **gwasanaeth bws Fflecsi** yn gweithredu ar hyn o bryd mewn nifer o leoliadau ledled Cymru. Ym mis Gorffennaf 2023, **dywedodd** y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar y pryd wrth y Senedd fod y gwasanaeth Fflecsi yn "debygol o fod yn rhan o'r darlun amrywiol rydym yn ei dendro fel rhan o broses y fasnachfraint". Dywedodd hefyd "nid oes unrhyw beth yn ei hanfod yn atal ardal wledig rhag cael gwasanaeth bws o safon" a thynnodd sylw at enghreifftiau mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, gydag "ardaloedd sydd â phoblogaeth lawer mwy gwasgaredig na Chymru, yn llwyddo i gael gwasanaeth bws aml iawn o ansawdd uchel".

Datblygodd y gwasanaeth bws Fflecsi presennol o'r gwasanaeth Bwcabus gwreiddiol a oedd yn gweithredu yng Ngheredigion, Sir Gâr a Sir Benfro. Cafodd y gwasanaeth ei dynnu'n ôl ddiwedd 2023 oherwydd diffyg cyllid, gan arwain at **bryder gan deithwyr**. Mae'r mater wedi bod yn destun **dadl yn y Senedd** a'i godi gyda'r **Pwyllgor Deisebau**.

## Gwasanaethau rheilffyrdd

Roedd ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i wasanaethau rheilffyrdd yn archwilio materion megis methu â chyflawni ymrwymiadau masnachfraint, **perfformiad gwael gwasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru**, a'r **cyllid ychwanegol** a ddarparwyd ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd yn ystod 2023-24. Gwnaeth nifer o argymhellion yn ei **adroddiad ym mis Mai 2024**.

**Clywodd y Pwyllgor** fod rhai o'r profiadau mwyaf negyddol ar linellau mewn ardaloedd gwledig. Ar linell Calon Cymru, dywedodd y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Cymunedol wrth y Pwyllgor:

> … We've heard about some very negative experiences on that line of late through late-notice cancellations, and uncertainty about whether there will be onward travel provided, and, sometimes, a long wait for that.

Pwysleisiodd hefyd fod gan y rhai mewn ardaloedd gwledig lai o ddewis o ran opsiynau teithio amgen pe bai gwasanaethau'n cael eu canslo/gohirio.

Er bod Trafnidiaeth Cymru yn **cyhoeddi data ar berfformiad trenau**, nid yw'n cyhoeddi dadansoddiad fesul llinellau unigol. Fodd bynnag, dengys **dadansoddiad gan Ymchwil y Senedd** fod gwasanaethau ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau yn ei gyfanrwydd yn llai prydlon o gymharu â **Llinellau Craidd y Cymoedd** yn benodol. Mewn **datganiad fis diwethaf**, awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth fod perfformiad rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru wedi "troi cornel".

Ym mis Ebrill, **cyhoeddodd Trafnidiaeth Cymru** ei fod wedi cwblhau ei adolygiad o'r amserlen yng ngoleuni'r newidiadau mewn patrymau teithio ar ôl y pandemig. Mae **newidiadau sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig** yn cynnwys tynnu rhai gwasanaethau rhwng Machynlleth a Phwllheli a lleihau gwasanaethau ar linell Calon Cymru – mater sydd wedi'i **godi yn y Senedd**. **Dywedwyd** wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn flaenorol:

> … the Heart of Wales line—it could be … something really special, as famous as the West Highland railway line, as famous as the Settle to Carlisle line, but at the moment it does feel like it's somewhat bottom of the pile.

## Prosiectau Metro

Mae **systemau Metro yn cael eu datblygu** yn y Gogledd; ym Mae Abertawe a'r Gorllewin; ac yn y De. **Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyfeirio yn ddiweddar** at brosiectau'r Gogledd a'r Gorllewin yn arbennig fel "cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol", yn hytrach na "Metros".

**Mae RailFuture wedi awgrymu wrth y Pwyllgor** Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn y gorffennol mai dim ond cysyniad oedd prosiectau'r Gogledd a Bae Abertawe / y De-orllewin - a fyddai'n gwasanaethu ardaloedd mwy gwledig yn hytrach na phrosiect mwy datblygedig **Metro De Cymru** - ac mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran eu cyflawni mewn gwirionedd. Gwrthododd Trafnidiaeth Cymru yr honiad hwn gan eu disgrifio fel "rhaglenni datblygu". **Dywedodd ei Brif Weithredwr, James Price**, mai'r her fwyaf yw a fydd y cynlluniau hynny'n cael eu hariannu ac o ble y daw'r cyllid hwnnw.

# 4. Yr economi, twristiaeth a chysylltedd digidol

## Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi ar y pryd, **ddatganiad ysgrifenedig** yn tynnu sylw at gyhoeddiad **Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ar gyfer y pedwar rhanbarth economaidd** – y Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain.

Dywedodd ar y pryd y bydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni ein **hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu** i ddatblygu ein Cenhadaeth Adfer Economaidd a Chydnerthedd a dylent lywio ein hymdrechion ar y cyd. (Yr enw ar y rhaglen hon yw'r **Genhadaeth i gryfhau ac ailadeiladu'r economi**.

Yn fwy diweddar, ym mis Tachwedd 2023, pan oedd yn Weinidog yr Economi o hyd, cyhoeddodd '**Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach**'. Mae'r ddogfen hon yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i "gytuno ar set newydd, fyrrach o flaenoriaethau gyda rhanbarthau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau brys". Ni roddwyd amserlen ar gyfer pryd y byddai hyn yn digwydd.

## Ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

O dan y **Cytundeb Cydweithio**, cyflwynodd Llywodraeth Cymru nifer o fesurau i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau niferoedd mawr o ail gartrefi a llety gwyliau:

- Cynyddu'r premiymau uchaf y gall awdurdodau lleol eu pennu ar gyfer y dreth gyngor **o 100% i 300%**. Ar gyfer y flwyddyn 2024-25, mae 15 o awdurdodau lleol yn codi premiwm ail gartrefi, gyda dau yn codi premiwm o fwy na 100%.
- Newid y trothwyon ar gyfer ardrethi annomestig, **gyda'r nod** o sicrhau bod eiddo a restrir ar gyfer ardrethi annomestig yn hytrach na'r dreth gyngor yn cael eu gosod yn rheolaidd fel rhan o fusnesau llety gwyliau gwirioneddol. O fis Ebrill 2023, rhaid i eiddo fod ar gael i'w osod am gyfnodau byr sy'n dod i 252 diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 12 mis, a rhaid iddynt gael eu gosod am 182 diwrnod neu fwy, i **gael eu rhestru ar gyfer ardrethi annomestig**.
- Cyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth cynllunio gyda'r nod o helpu awdurdodau cynllunio lleol i reoli ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Cyflwynodd y **newid deddfwriaethol** hwn dri dosbarth defnydd newydd: 'prif gartref', 'cartref eilaidd'

a 'llety gwyliau tymor byr'. Roedd hefyd yn rhoi'r pŵer i awdurdodau cynllunio lleol ystyried a ddylai newid eiddo o un dosbarth defnydd i'r llall o fewn ardal benodol fod yn destun caniatâd.

- Cynnal **cynllun peilot yn Nwyfor, Gwynedd** i dreialu cyflwyniad mesurau newydd amrywiol i reoli nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Mae yna hefyd rai mesurau arfaethedig i fynd i'r afael ag effaith ail gartrefi a llety gwyliau nad ydynt wedi dod i rym eto:

- Newidiadau arfaethedig i ganiatáu amrywio cyfraddau Treth Trafodiadau Tir ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn rhai ardaloedd lleol, **yr ymgynghorwyd arnynt yn 2021**. **Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Mawrth 2024** fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol i archwilio'r cynnig.
- Cynlluniau i gyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety i ymwelwyr. **Disgwylir i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno** i'r Senedd cyn diwedd y flwyddyn hon, gan ganolbwyntio i ddechrau ar lety gwyliau tymor byr.
- **Cynigion**, y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio arnynt, i roi'r pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr.

Rhwng 2023-24 a 2024-25, gostyngodd **nifer yr ail gartrefi a chartrefi gwag** yng Nghymru o 24,170 i 21,931. Nid oes unrhyw ddata cymaradwy ar nifer y llety gwyliau tymor byr.

## Cysylltedd Digidol

Yn ôl yn 2014, dim ond 55% o eiddo preswyl yng Nghymru a allai gael band eang ar gyflymder o 30 Megadid yr eiliad (Mbps) neu fwy, o gymharu â 75% ar draws y DU. Yn 2024, **roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 96% (cyfartaledd y DU oedd 97%)** yn dilyn **buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru**. Dyma'r math o gyflymder sy'n galluogi un person i ffrydio fideo 4K/Manylder Uchel Iawn neu ddefnyddio sawl dyfais ar yr un pryd.

Dros y degawd diwethaf, mae polisi band eang Llywodraeth Cymru wedi cynnwys dwy elfen: rhoi grantiau i unigolion, a thalu darparwyr band eang (BT ym mhob achos) i ddarparu band eang cyflym y tu allan i ardaloedd sy'n fasnachol hyfyw.

Mae telathrebu yn fater a gadwyd yn ôl. Yn 2022, **teimlai Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog ar y pryd**, drwy wario cyllid Llywodraeth Cymru ar swyddogaeth heb ei datganoli, fod Llywodraeth y DU yn gwneud i ni wario arian mewn meysydd lle na ddylem fod yn gwario arian, a'n bod yn esgusodi Llywodraeth y DU.

# 5. Tai

## Tai cymdeithasol gwledig

Er bod rhwystrau i ddarparu tai fforddiadwy newydd ledled Cymru, mae ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i'r **cyflenwad o dai cymdeithasol** wedi clywed tystiolaeth fod heriau ychwanegol mewn ardaloedd gwledig.

Cyfeiriwyd at gostau cynyddol tir, deunyddiau a benthyca. Dywedodd rhai tystion fod **costau adeiladu yn uwch** mewn ardaloedd gwledig ac awgrymwyd y dylai lefelau grant fod yn uwch ar gyfer datblygu gwledig.

Croesawodd rhai rhanddeiliaid **ymrwymiad maniffesto'r Prif Weinidog** i sefydlu tasglu tai fforddiadwy i **fynd i'r afael ag ôl-groniadau cynllunio**.

Mae ffosffadau **yn dal i fod yn rhwystr i adeiladu cartrefi** mewn rhai rhannau o Gymru wledig. Aeth y Prif Weinidog blaenorol ati i gynnull cyfres o **uwchgynadleddau llygredd afonydd** i geisio dod o hyd i atebion.

## Digartrefedd gwledig

Canfu **erthygl academaidd yn 2019 ar atal digartrefedd** yng Nghymru wledig fod pobl mewn ardaloedd gwledig sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd yn wynebu heriau penodol:

- Mae'r stoc tai cyfyngedig yn gwaethygu anawsterau wrth ddod o hyd i lety sy'n fforddiadwy ac yn y gymuned leol
- Gall prinder gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig greu rhwystrau ychwanegol i gael cymorth
- Mae rhai arwyddion y gall digartrefedd fod yn cael ei dangofnodi mewn ardaloedd gwledig, gan ei fod yn llai gweladwy ac oherwydd y gallai pobl fod yn llai tebygol o ofyn am gymorth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei hymgynghoriad ar y **Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd**. Mae Bil i'w osod yn ystod y tymor Senedd hwn. Mae'r **newidiadau arfaethedig** yn cynnwys mesurau i gefnogi atal yn gynt, rhoi diwedd ar y profion angen blaenoriaethol a digartrefedd bwriadol, a chreu dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus i nodi pobl sydd dan fygythiad o ddigartrefedd a'u cyfeirio at gymorth.

Nid yw'r Papur Gwyn yn cynnwys unrhyw fesurau penodol ar ddigartrefedd

gwledig. Galwodd nifer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad am **wasanaethau pwrpasol** wedi'u teilwra i ddigartrefedd gwledig. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu uchelgais y Papur Gwyn, ond roedd y gefnogaeth hon yn dibynnu'n fawr ar faint yr adnoddau, yn ogystal â'r newid diwylliannol eang y teimlai rhanddeiliaid a fyddai'n hanfodol i gyflawni gweledigaeth y Papur Gwyn.

# 6. Y Gymraeg

## Y Gymraeg, amaethyddiaeth a Chymru wledig

Er bod cymunedau Cymraeg eu hiaith i'w cael ledled Cymru, mae'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg rhugl yn byw yn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol y Gogledd a'r Gorllewin. Amaethyddiaeth yn aml yw asgwrn cefn y cymunedau hyn, gyda **data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai'r sector amaethyddol** sy'n cyflogi'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Nododd **adroddiad 5 mlynedd Comisiynydd y Gymraeg ar Sefyllfa'r Gymraeg 2016–20**:

> Mae ardaloedd yng ngorllewin, canolbarth a gogledd Cymru lle mae oddeutu traean o'r boblogaeth leol yn cael eu cyflogi yn y sector, a lle mae dros 90% o'r gweithlu amaethyddol yn siarad Cymraeg.

Yn 2021, **ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg** at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, gan nodi pryderon penodol am effaith bosibl newidiadau i gyllid amaethyddol ar ôl Brexit yng Nghymru ar "barhad y gymuned amaethyddol Gymraeg ei hiaith".

Mynegodd y Comisiynydd bryderon am effaith unrhyw gynllun newydd ar "ffermydd teuluol, llai" a allai danseilio cymunedau lle mae'r Gymraeg yn dal i ffynnu.

## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Gymraeg

Fel y nodwyd ym mhennod 2 o'r briff hwn, bwriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) yw gwobrwyo ffermwyr am gyflawni camau gweithredu yn seiliedig ar **yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy**, sy'n cynnwys y nod canlynol:

> ...cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a **chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd**.

Mae crynodeb o **ymateb Comisiynydd y Gymraeg i'r CFfC (Mawrth 2024)** yn rhoi pwyslais ar y berthynas hollbwysig rhwng amaethyddiaeth a Chymru wledig a'r defnydd o'r Gymraeg fel "iaith naturiol bob dydd".

Mae crynodeb y Comisiynydd yn disgrifio canfyddiadau Llywodraeth Cymru yn ei **hasesiad effaith** ar gyfer y cynllun, gan ddod i'r casgliad y gallai "newidiadau i'r system gymorth effeithio'n negyddol ar gymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith". Mae'r asesiad effaith yn edrych yn benodol ar y gwahaniaeth rhwng ffermwyr Cymraeg eu hiaith a rhai di-Gymraeg. Canfu bod "siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o deimlo'n rhan o'r gymuned wledig ac o fod â lefelau uwch o ymgysylltiad

â sefydliadau cymdeithasol a ffermio na'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg." Yn hollbwysig, mae'r asesiad effaith yn nodi:

> O ystyried bod y ffermydd bach hyn yn fwy tebygol o dderbyn taliadau Cynllun y Taliad Sengl, bydd unrhyw newidiadau i'r system gymorth yn fwy tebygol o effeithio arnynt… Os na all ffermydd barhau i fasnachu, mae'n bosibl y bydd hynny'n arwain at effeithiau dilynol ar y gymuned ffermio leol, y gymuned wledig leol, a'r Gymraeg.

Wrth gyfeirio at ddogfen Llywodraeth Cymru ar **Effeithiau economaidd posibl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**, mae'r Comisiynydd yn tynnu sylw at y golled allbwn gyffredinol amcangyfrifedig o £125m y flwyddyn a gostyngiad o 11% mewn llafur fferm. Er nad yw'n glir i ba raddau yr oedd yr asesiadau effaith economaidd wedi ystyried y goblygiadau ar y Gymraeg, mae'r Comisiynydd yn sicr bod hwn yn "wendid amlwg" yn y broses, ac mae'n pryderu bod Llywodraeth Cymru wedi:

> … llunio Cynllun a allasai danseilio un o'r amcanion y bwriadwyd ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy… sef 'cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd'.

## Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Ym mis Awst 2022, sefydlodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, Jeremy Miles AS, **Gomisiwn** i archwilio dyfodol y Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru. Fe'i sefydlwyd mewn ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad y Gymraeg 2021, a ddangosodd ostyngiad yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, a dirywiad pellach fel iaith gymunedol. Roedd hefyd mewn ymateb i'r "**argyfwng cymdeithasol a sosio-economaidd sydd wedi codi mewn cymunedau Cymraeg**".

Mae **papur safbwynt y Comisiwn** ym mis Mehefin 2023 yn nodi bod "dyfodol amaethyddiaeth o bwys i ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol", a bod y sector a'i diwylliant yn "rhan greiddiol o wead cymdeithasol ardaloedd gwledig sy'n Gymraeg eu hiaith". Mae'r papur hefyd yn nodi, hyd yn oed mewn ardaloedd o Gymru lle nad y Gymraeg yw'r iaith fwyafrifol, fod gan yr iaith "swyddogaeth gymunedol bwysig" ac:

> … yn codi'r cwestiwn a ddylid dynodi ardaloedd o'r fath yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol (dwysedd uwch) er bod canran y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned yn ei chyfanrwydd yn is na 50%, ac weithiau gryn dipyn yn is.

Disgwylir i'r Comisiwn **gyhoeddi ei adroddiad terfynol a'i argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol 2024**.

## Arfor

Rhaglen a ddatblygwyd yn dilyn cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yw Arfor, a wnaed fel rhan o'u trafodaethau ar **gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19**.

**Lansiwyd rhaglen beilot yn 2019** gyda £2 filiwn o gyllid i gynorthwyo pedwar awdurdod lleol (Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn), i ddatblygu dulliau newydd ac arloesol i gefnogi datblygiad economaidd yn yr ardaloedd hyn. Ystyrir yn gyffredinol fod y pedwar awdurdod hyn yn gadarnleoedd i'r Gymraeg, ac maent, ar y cyfan, yn wledig o ran daearyddiaeth.

Nod y rhaglen beilot oedd:

- hybu mentrau a chefnogi twf busnes mewn ardaloedd lle y mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg;
- sicrhau swyddi gwell sy'n talu'n well i gadw pobl leol yn yr ardaloedd hyn;
- hyrwyddo gwerth siarad Cymraeg a dwyieithrwydd mewn busnesau; ac
- annog busnesau a phobl sy'n symud i ardaloedd gwledig i werthfawrogi a defnyddio'r Gymraeg.

Parhaodd y rhaglen beilot tan fis Mawrth 2021. Yn ôl **gwefan rhaglen Arfor**, cefnogwyd 154 o fusnesau, gyda 238 o swyddi llawn amser ac 89 o swyddi rhan-amser wedi'u creu, a 226 o swyddi wedi'u diogelu fel rhan o'r rhaglen beilot. Nododd **gwerthusiad o'r rhaglen beilot** wersi i'w dysgu o'r rhaglen beilot, gan gynnwys:

- bod gan rai o'r cynlluniau cymorth busnes a dreialwyd y potensial, o'u strwythuro'n gywir, i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle;
- bod angen gwaith pellach i ddeall pa fathau o swyddi sy'n annog siaradwyr Cymraeg i fyw yn rhanbarth Arfor; ac
- er mwyn i'r rhaglen gael effaith sylweddol a gwaddol adeiladol, bod rhaid rhannu'r dysgu, a phrif ffrydio cynlluniau.

Yn 2021, **cytunodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru** i ymgymryd ag ail gam cynllun Arfor gyda **chyllid o £11 miliwn** i'w gefnogi. Mae **pum ffrwd waith wahanol yn Arfor 2**, sy'n cynnwys:

- **Llwyddo'n Lleol** – cynllun gwerth £3 miliwn ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd ifanc o dan 35 oed i gynyddu cyfleoedd gwaith o fewn cymunedau;

- **Cymunedau Mentrus** – cronfa sy'n cynnig cymorth i fentrau preifat/cymunedol/cymdeithasol i ddatblygu gwasanaethau/cynhyrchion newydd o fewn cymunedau;
- **Cronfa Her** – bydd y gronfa hon o £2.6 miliwn yn cefnogi unigolion sydd â syniadau arloesol i ddiwallu anghenion economaidd rhanbarth Arfor;
- **Bwrlwm Arfor** – bydd hwn yn darparu adnoddau busnes a hwb cymunedol i gefnogi dwyieithrwydd a'r defnydd o'r Gymraeg.

# 7. Gofal Iechyd

Nododd **tystiolaeth ysgrifenedig** gan Lywodraeth Cymru yn 2019 (gan Vaughan Gething AS pan oedd yn Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Pumed Senedd yr heriau canlynol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru:

- anawsterau o ran recriwtio a chadw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn lleoliadau gwledig neu anghysbell;
- y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth wedi'i gwasgaru'n eang a lle yr ystyrir bod pellteroedd teithio yn rhwystr mawr i fynediad at wasanaethau iechyd a gofal; a,
- phoblogaeth sy'n heneiddio ac sy'n cynyddu'n gyflymach mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol.

Rhwng 2009 a 2013, roedd gan Lywodraeth Cymru **Gynllun Iechyd Gwledig**, a oedd yn canolbwyntio ar wella mynediad at ofal iechyd, gwasanaethau integredig, a chydlyniant ac ymgysylltiad cymunedol. Yn 2019, **gofynnwyd** i Vaughan Gething AS, fel y Gweinidog Iechyd ar y pryd, pam nad yw cynllun iechyd a gwasanaethau cymdeithasol hirdymor presennol Llywodraeth Cymru, **Cymru Iachach** (2018), yn gwneud unrhyw gyfeiriad penodol at gymunedau gwledig. Dywedodd:

> We now have a coherent health and social care plan for the country, and that is not just a plan for urban Wales or a plan for rural Wales; it is a plan for Wales ... I really don't want to get diverted from delivering the vision in 'A Healthier Wales', because then the coherence we have could easily disappear if I set off and try and have specific plans on geographic locations.

Dadleuodd hefyd fod dull prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad wedi'i wreiddio ym mhob rhan o'r broses o lunio polisïau Llywodraeth Cymru.

## Y gweithlu a recriwtio

**Mae ymchwil yn awgrymu** bod argaeledd gwasanaethau a'r gweithlu iechyd mewn ardaloedd gwledig yn gwneud cyfraniad mwy arwyddocaol at ganlyniadau iechyd nag mewn ardaloedd trefol, ond bod recriwtio a chadw'r gweithlu yn gallu bod yn arbennig o heriol. Mae **Papur Sbotolau Iechyd Cyhoeddus Cymru** (2022) ar effaith "her driphlyg" Brexit, y pandemig Covid-19 a'r newid yn yr hinsawdd ar gymunedau gwledig yn tynnu sylw at y ffaith bod darparwyr y GIG mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod wedi profi materion gweithlu a sefyllfaoedd ariannol gwaeth yn ystod yr pandemig.

Dywed **strategaeth gweithlu 10 mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol** (2020) GIG Cymru y bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn datblygu cynlluniau wedi'u targedu i fynd i'r afael â phrinder sylweddol o weithwyr iechyd proffesiynol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell. Nod yr **ymgyrch Hyfforddi Gweithio Byw**, a lansiwyd yn 2016 ac a ddarperir gan AaGIC, yw marchnata Cymru i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae wedi targedu ymgyrchoedd recriwtio at feddygon teulu, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol, nyrsys a bydwragedd, deintyddion a fferyllwyr.

O fis Medi, bydd **Llywodraeth Cymru yn ariannu** hyd at 140 o leoedd yn Ysgol Feddygol newydd y Gogledd. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Eluned Morgan, y bydd hyn yn sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a darpariaeth meddygon cymwys wedi'i gwasgaru ledled Cymru.

Mae cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, **Cymru Iachach**, yn nodi symudiad o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd mewn ysbytai i gymunedau, sy'n arbennig o arwyddocaol i ardaloedd gwledig lle gall pellteroedd teithio fod yn rhwystr i fynediad at ofal. Mae nifer y meddygfeydd teulu yng Nghymru wedi gostwng yn y 10 mlynedd diwethaf o **470 o feddygfeydd** yn 2013 i **374 o feddygfeydd** yn 2023. Mae nifer o feddygfeydd teulu mewn ardaloedd gwledig wedi cau yn ddiweddar, er enghraifft, mae **4 meddygfa ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** wedi dychwelyd eu contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) ers 2022 ac mae dirprwy gyfarwyddwr meddygol gofal sylfaenol y bwrdd iechyd wedi dweud efallai y bydd angen i gleifion **deithio ymhellach** i'w meddygfa deulu.

## Ambiwlans Awyr Cymru

Mae Ambiwlans Awyr Cymru yn bartneriaeth rhwng yr ymddiriedolaeth elusennol a Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) GIG Cymru. Mae'n darparu gofal meddygol datblygedig sy'n achub bywydau ledled Cymru o bedair canolfan yng Nghaernarfon, Llanelli, y Trallwng a Chaerdydd mewn hofrennydd a cherbyd ymateb cyflym.

Ym mis Ebrill, gwnaeth Cydbwyllgor Comisiynu (JCC) GIG Cymru **gymeradwyo argymhelliad Adolygiad y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys** y dylid cyfuno safleoedd y Trallwng a Chaernarfon yn un safle yn y gogledd, gyda'r union leoliad i'w benderfynu maes o law. Nod hyn yw mynd i'r afael ag amrywiadau mewn cyfraddau defnydd rhwng canolfannau ac angen nas diwellir, lle mae angen gofal critigol ond nad oes adnoddau ar gael, sydd ar hyn o bryd ar ei uchaf yn y Gogledd.

# 8. Addysg

## Ysgolion gwledig

Yn y Senedd flaenorol, pan oedd Kirsty Williams yn Ysgrifennydd y Cabinet / y Gweinidog Addysg, roedd gan Lywodraeth Cymru '**gynllun gweithredu addysg wledig**'. Roedd hyn yn sgil **cytuno ar rai blaenoriaethau addysg** gyda'r cyn-Brif Weinidog, Carwyn Jones, a oedd yn sail i'w **phenodiad i'r Cabinet** ym mis Mehefin 2016.

Roedd Grant Ysgolion Bach a Gwledig, gwerth £2.5 miliwn y flwyddyn dros bum mlynedd rhwng 2017-18 a 2021-22. Cadarnhaodd **papur Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, Jeremy Miles, i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyllideb 2022-23** fod y grant hwn wedi dod i ben ym mis Mawrth 2022, gyda'r £2.5m y flwyddyn wedi'i ailgyfeirio i'r Grant Cymraeg mewn Addysg.

Newid polisi arall gyda'r nod o gefnogi cymunedau gwledig oedd y diwygiad ym mis Tachwedd 2018 i'r **Cod Trefniadaeth Ysgolion** (sy'n llywodraethu sut mae awdurdodau lleol yn bwrw ymlaen â chynigion i gau/cyfuno ysgolion) i gynnwys rhagdybiaeth yn erbyn cau 218 o 'ysgolion gwledig' a restrir yn y Cod. Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau ond rhaid i'r awdurdod lleol ddilyn "cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion" wrth gynnig cau ysgol wledig (gweler **adran 1.8 o God 2018**).

## Teithio gan ddysgwyr

Dechreuodd Llywodraeth Cymru adolygu trefniadau teithio gan ddysgwyr ym mis **Tachwedd 2019**. I ddechrau, roedd hyn mewn perthynas â dysgwyr ôl-16, ond cafodd ei **ymestyn yn 2020** i gynnwys dysgwyr 4-16 oed a'i **ymestyn ymhellach** ym mis Mawrth 2022 i ystyried adolygiad cyflawn o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr.

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Teithio gan Ddysgwyr yng Nghymru Dadansoddi a gwerthuso: adroddiad argymhellion** a ganfu, oherwydd y diwygiadau sydd i ddod i'r diwydiant bysiau a chyfyngiadau cyllidebol, "na ddylid mynd ati ar hyn o bryd i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n sail i Deithio gan Ddysgwyr yng Nghymru". Argymhellodd y dylai newidiadau gael eu gwneud i ganllawiau statudol i gefnogi dull mwy cyson o ddarparu teithio gan ddysgwyr ledled Cymru.

# 9. Bwyd a diod

Mae **gwerthusiad economaidd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer sector bwyd a diod Cymru (2022)** yn dangos bod y gadwyn gyflenwi bwyd a diod yn cyflogi 233,500 o bobl a bod ganddi Werth Ychwanegol Crynswth o £6.11 biliwn yn 2021. Mae cadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru yn cynnwys gweithgynhyrchu a phecynnu cysylltiedig, amaethyddiaeth a physgota, manwerthu a chyfanwerthu, ac arlwyo dibreswyl. Mae llawer o fusnesau yn y sector hwn yn **darparu cyflogaeth sylweddol mewn cymunedau gwledig**.

Cyhoeddwyd **Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant bwyd a diod o 2021** Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd. Ei nod yw:

- sicrhau cadwyn gyflenwi sy'n amgylcheddol ac yn gymdeithasol gyfrifol ac sydd ag enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth; a
- thyfu'r diwydiant ar gyfradd uwch yn gymesur â gweddill y DU.

Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu a phrosesu bwyd a bu galwadau diweddar am strategaeth fwy cyffredinol ar gyfer y system fwyd yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys gan Peter Fox AS yn ei **Fil Bwyd (Cymru)**, **Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig** y Senedd a **Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthwynebu'r galwadau hyn, gan ddweud bod ganddi ddull strategol eisoes, gan gynnwys **targedau a dangosyddion cynnydd** penodol, a bod polisïau newydd yn cael eu creu os nodir unrhyw fylchau.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS, wedi dweud y bydd dogfen o'r enw '**Bwyd o Bwys: Cymru' yn cael ei chyhoeddi'n fuan**. Dywedodd y bydd yn "crynhoi ac yn dwyn ynghyd yr holl brif bolisïau a gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd sy'n digwydd ar draws y llywodraeth". Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i **gyhoeddi strategaeth fwyd gymunedol** erbyn diwedd 2024 a fydd yn "ysgogi a chefnogi mentrau bwyd ar lawr gwlad".

Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig **ddatganiad i'r Senedd** ar 25 Mehefin ar gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy o fewn system fwyd Cymru. Amlinellodd y cymorth sydd ar waith i weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru "ddatgarboneiddio, gwella darpariaeth effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol cadarnhaol, ac i ymateb i'r effeithiau hinsawdd ar gynhyrchu bwyd".